**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 449**

**6 Mai 2021 - Cyfarfod Zoom**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol**
**Y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) – eitem 1-4 |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Denise Lewis Poulton | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Staff S4C oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata) |
| Eilir Jones | (Pennaeth Ymchwil) – eitem 4 |
| Arwyn Rawson Thomas | (Trefnydd Cynllunio) – eitem 4 |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriad gan AdG.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom. Atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn Adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 **[Crynodeb:** Adroddwyd ar gyfarfod a gafwyd gyda'r Gweinidog John Whittingdale. Byddai swyddogion yn parhau i friffio Aelodau Seneddol a rhanddeiliaid eraill.]

2.2 Gofynnodd RhW pryd fyddai'n bosib i'r Bwrdd gwrdd mewn person? Atebodd OE ym mis Medi o bosib yn dibynnu ar ganllawiau'r Llywodraeth a ffactorau eraill. Roedd yr aelodau newydd yn awyddus

i gwrdd lan rhywbryd.

2.3 Cyflwynwyd nodyn ar drafodaethau'r Cwrdd i Ffwrdd a gynhaliwyd ar 28 Ebrill, gan gynnwys y canlynol:

Cyfarfodydd aelodau anweithredol yn unig

Nodwyd bod cael cyfarfodydd o'r aelodau anweithredol yn unig yn rhan allweddol o lywodraethiant da, ond rhaid osgoi creu sefyllfa lle mae aelodau gweithredol y Bwrdd yn teimlo eu bod yn cael eu neilltuo.

Cytunwyd ein bod yn trefnu cyfarfodydd chwarterol o'r aelodau anweithredol gan wneud i ffwrdd a sesiynau preifat cyn cyfarfodydd y Bwrdd oni bai bod angen penodol yn codi.

Fodd bynnag, pan yn briodol, cytunwyd y bydd modd galw cyfarfod o Aelodau Anweithredol yn unig ar unrhyw amser.

Amlder cyfarfodydd

Cytunwyd ein bod yn cadw at y drefn o gynnal wyth cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd a dau gyfarfod Cwrdd i Ffwrdd yn ystod y flwyddyn.

Trefn agenda'r Bwrdd

Trafodwyd y posibilrwydd o newid trefn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws ar y materion strategol mawr ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd. Cytunwyd ein bod yn sicrhau bod materion strategol yn cael ystyriaeth a thrafodaeth ar ôl adroddiad y Prif Weithredwr fel rhan o agenda'r Bwrdd.

Hyfforddiant Aelodau

[**Crynodeb**: Cytunwyd ein bod yn edrych ar drefnu hyfforddiant allanol i'r Aelodau gyda ffocws ar sut i weithredu fel Bwrdd Unedol.]

Gwybodaeth i'r Bwrdd

Trafodwyd pa fath o wybodaeth byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd dderbyn. Ar y cyfan roedd aelodau yn hapus gyda fformat a hyd y papurau ond roedd angen bod yn glir o ran y pwrpas - trafod, penderfynu neu nodi.

Awgrymwyd hefyd y canlynol:

- Datblygu dangosfwrdd gyda KPIs a'r statws RAG yn erbyn y prif brosiectau ayyb;
- Diweddariad ysgrifenedig rhwng Cyfarfodydd y Bwrdd gan y Prif Weithredwr/Cadeirydd/Ysgrifennydd;
- Adborth ar ôl cyfarfodydd ar y prif bwyntiau gweithredu.

Cytunwyd y dylai'r Tîm Rheoli ystyried ymhellach pa fath o ddangosfwrdd gellid darparu i'r Bwrdd. Hefyd, byddai OE, RhW ac OLl yn trafod y syniad o ddiweddariad ysgrifenedig rhwng cyfarfodydd.

Yn ychwanegol, gofynnwyd a fyddai'n bosibl i'r aelodau anweithredol derbyn gwybodaeth reolaidd yn ymwneud a'r sector neu'r diwydiant, a hefyd digwyddiadau mewnol S4C. Cafwyd trafodaeth am amlder y negeseuon a'r angen i beidio gorlwytho'r aelodau gyda gwybodaeth gyson. Awgrymwyd gwahanol opsiynau megis defnyddio adroddiadau Enders neu Broadcast ac ymuno â'r cyfarfodydd staff neu'r cyfarfodydd gyda'r sector. Penderfynwyd gadael manylion beth i'w rhannu i'r swyddogion.

2.4 Teimla un y byddai hefyd yn ddymunol derbyn mwy o adborth o'r pwyllgorau a thrafodwyd os dylid edrych ar ail-drefnu amseroedd y pwyllgorau. Er hynny, nodwyd fod cyfarfodydd eleni wedi'u rhoi yn y dyddiaduron ac y byddai'n anodd ail-drefnu. Atgoffwyd aelodau hefyd fod trefn eisoes yn ei lle ble mae papurau'r pwyllgorau yn cael eu cylchredeg i holl aelodau'r Bwrdd. Awgrymwyd y dylai'r cofnodion gael eu hychwanegu yn syth i Diligent unwaith y maent wedi'u paratoi.

2.5 Cafwyd trafodaeth am y cynlluniau arfaethedig ynglŷn â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Nododd RhW fod angen trafodaeth yn y Bwrdd ond credai y byddai cymysgedd o gyfarfodydd rhithiol ac wyneb yn wyneb yn dderbyniol, ac y byddai bwriad i barhau gyda chynnal cyfarfodydd Bwrdd yn ein tri safle.

## 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol.

[**Crynodeb:** Roedd OE a RhTD i gyfarfod i drafod trefniadau darlledu ar gyfer yr etholiad.

Cyfeiriwyd at y berthynas gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.]

Roedd S4C wedi hysbysebu ar gyfer Comisiynydd Plant a Dysgwyr, gyda SR i'r dyfodol yn canolbwyntio ar ffrydio cynnwys digidol i blant a strategaeth addysg a dysgwyr newydd.

Holwyd am y trefniadau i ail agor swyddfeydd S4C? Adroddodd OE fod peth ail-drefnu i swyddfa'r Egin wedi digwydd, gan gymryd i ystyriaeth fod mwy o alw am ystafelloedd cwrdd yn hytrach na desgiau unigol. Bwriedir i dimoedd gyfarfod gyda'i gilydd, ond nid oedd yn rhagweld y bydd pawb yn ôl yn y swyddfa ar yr un pryd am gyfnod.

## 4. Cynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer 2021-22

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad ar gynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer 2021-22. Cymeradwywyd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2021-22.]

## 5. Aelodaeth Pwyllgorau

Cyflwynwyd papur yn argymell aelodaeth y pwyllgorau yn sgil croesawu aelodau anweithredol newydd.

Eglurodd RhW y bwriad i sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu newydd, gyda DLP yn cadeirio. Cafwyd trafodaeth am bwrpas y pwyllgorau. Yn ogystal ag arolygiaeth, nodwyd bod y pwyllgorau yn ffordd o ddefnyddio arbenigedd a phersbectif yr aelodau anweithredol.

Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

Hugh Hesketh Evans (Cad), Anita George, Rhodri Williams, Chris Jones, Guto Bebb, Owen Evans, Sharon Winogorski, Elin Morris ac Owain Lloyd.

Pwyllgor Cynnwys

Rhodri Williams (Cad), Siân Lewis, Chris Jones (yn lle AG), Adele Gritten, Denise Lewis Poulton, Owen Evans, Amanda Rees, Eilir Jones, Arwyn Thomas, Rhodri ap Dyfrig, Geraint Evans ac Owain Lloyd.

Pwyllgor Cyfathrebu

Denise Lewis Poulton (Cad), Rhodri Williams, Guto Bebb, Adele Gritten, Chris Jones, Owen Evans, Gwyn Williams, Owen Derbyshire, Catrin Hughes Roberts ac Owain Lloyd.

Pwyllgor Cwynion

Siân Lewis (Cad), Guto Bebb (Cad) >Mehefin 2021, Hugh Hesketh Evans, Adele Gritten ac Owain Lloyd.

Y Bwrdd Masnachol

Rhodri Williams (Arsylwi), Anita George , Chris Jones, Adele Gritten, Owen Evans, Elin Morris, Sharon Winogorski, David Sanders a Gwyn Roberts.

6. **Adolygu Amcanion Gweithredol 2020/21**

Cyflwynwyd adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn flwyddyn anarferol gyda Covid-19, ond roedd llawer wedi'i chyflawni megis cydleoli, perfformiad y gwasanaeth i fyny, cais DCMS, ayyb. Awgrymwyd efallai byddai'n help nodi targedau yn erbyn yr amcanion yn y dyfodol.

7. **Amserlen Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol**

Nododd OLl y bwriad i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol i'r Bwrdd ar 17 Mehefin. Cyflwynwyd peth o'r Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio y diwrnod blaenorol.

Awgrymwyd efallai y dylen ni ystyried ESG (Environmental Social Governance) ar gyfer y dyfodol. Roedd yn fframwaith defnyddiol i ffocysu ar gyfraniad cyrff i'r amgylchedd, materion cymdeithasol a chorfforaethol ac yn rhan bwysig o frandio a phwrpas sefydliadau.

Roedd y Bwrdd am longyfarch y tîm a holl staff S4C am eu gwaith da dros flwyddyn anodd iawn.

8. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd gopi o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth.

9. **Cofnodion Cyfarfod 18 Mawrth 2021**

Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod rhif 448 gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

10. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**

Penderfynwyd y byddai BCW yn trefnu sesiynau briffio rhwng yr Aelodau Anweithredol newydd a swyddogion perthnasol.